

Colin H. Williams
Uned Ymchwil Iaith a Chynllunio
Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd

Deddfwriaeth Newydd a'r Gymraeg

14 Hydref 2005

**(Fersiwn diwygiedig o ddarlith a draddodwyd yn
Eisteddfod Genedlaethol Eryri a'r Cyffiniau, 4 Awst 2005)**

Mae statws swyddogol y Gymraeg wedi ei ddiffinio gan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 sy'n pennu, wrth gynnal busnes cyhoeddus a gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru, y dylai'r Gymraeg a'r Saesneg gael eu trin ar y sail eu bod yn gyfartal. Gwyddwn o brofiad nad yw cyd-destunau'r Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal, felly mae'n dilyn y bydd yr iaith Gymraeg o dan anfantais strwythurol fel dewis iaith dinasyddion Cymru. Un peth yw egwyddorion deddfwriaeth, peth arall yw profiad beunyddiol yr unigolyn. Dymunaf gyfrannu at ein deallt wriaeth ni o ddeddfwriaeth newydd a'r Gymraeg drwy dynnu sylw at wendidau yn y system sydd ohoni a chynnig rhai ffyrdd ymarferol o weithredu er mwyn i'r dewis ieithyddol, yr ymddygiad neu'r arfer gael eu seilio ar ddisgwyliadau rhesymol. Byrdwn y papur hwn yw mai hawl yr unigolyn ddylai fod yn sbardun cysyniadol ychwanegol i lywio unrhyw ganolbwyntio pellach ar y Gymraeg, a hynny i gydgorio â'r ffrwd ddiweddar ym maes hawliau dynol yn gyffredinol ac yn fwy penodol ddeddfwriaeth ar y 'cydraddoldebau'. Ar lefel bersonol nid wyf yn gyffredinol o blaid rhagor o fiwrocratiaeth, rheoleiddio, deddfwriaeth ac yn y blaen. Mae yna ddigonedd o gyfarwyddiadau gennym yn barod ar sut i fyw. Y sialens yw byw a bod.

Ond os ydym am fyw bywyd Cymreig neu ddwyieithog rwy'n derbyn fod angen cyfnod gweddol hir o ddeddfwriaethu, rheoleiddio a meddwl strategol ynglyn â'n sefyllfa fel dinasyddion dwyieithog os nad amlieithog. Erbyn hyn, dim ond y gyfraith all sicrhau ein hawl i ddefnyddio'r Gymraeg fel mater o ddewis, hawl ac nid braint mohono.

Felly neges agoriadol fy mhapur yw y dylid pennu'r Gymraeg yn iaith swyddogol yng Nghymru ac yn unfraint â'r Saesneg. Gweithred i sicrhau statws, yn hytrach nag ysgogi defnydd uniongyrchol, fyddai hon. Serch hynny, byddai'n ddatganiad symbolaidd pwysig iawn i'r Gymraeg ac yn fodd o bwysleisio amcanion y Llywodraeth ar gyfer y Gymraeg. Ond yn ogystal â chefnogi'r elfen symbolaidd mae yna gyfiawnhad mwy ymarferol o lawer dros gefnogi 'Deddfwriaeth Newydd a'r Gymraeg'. Dyma chwe rheswm dros ddweud hyn.

1. Ei hangen – mae'n bryd i ni roi elfennau o'n hawliau ieithyddol ar sail statudol.
2. Mae'r iaith yn rhan o'r 'Agenda Cydraddoldeb' ac mae angen datblygu ein hawliau yn unffurf â'r hawliau sydd eisoes yn bodoli ym maes polisiau Gwrth-hiliol, Cydraddoldeb Rhywiol, Anabledd ac yn y blaen.
3. Mae nifer o dueddiadau Ewropeaidd yn arwain at ddiffiniadau mwy cynhwysfawr o'n hawliau dinesig, cymdeithasol ac economaidd. Ymateb yw hwn i nifer o dueddiadau amrywiol e.e. globaleiddio ac esblygiad y genedl wladwriaeth ymatebol â chonsyrn a m athrawiaeth y farchnad gymdeithasol.
4. Ac yn fwy ymarferol ac amserol, greda i, mae diddymu/ integreiddio Bwrdd yr Iaith yn rhan o gyfundrefn normal y Cynulliad yn golygu fod yna wagle statudol posib yn ymwneud â'r cwestiwn pa gorff fydd yn cymeradwyo a monitro Cynlluniau Iaith statudol, gan gynnwys yn arbennig Cynllun Iaith y Cynulliad ei hunan.
5. Mae'n bosibl y cawn swyddog, un ai Dyfarnydd neu Gomisiynydd Iaith, fydd yn delio â chwynion gan y cyhoedd neu ar y lleiaf yn archwilio sut y mae adrannau o'r Llywodraeth yn glynu wrth eu Cynlluniau Iaith statudol Felly mae'n briodol ein bod yn pwysu am ragor o deddfwriaeth a fydd yn ein galluogi i ddewis defnyddio'r Gymraeg mewn amryw sefyllfaoedd. O dan y trefniant deddfwriaethol presennol, bydd angen deddfwriaeth gynradd i sefydlu'r rheoleiddiwr newydd. Wedi dweud hynny, mae Papur Gwyn Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol, *Trefn Lywodraethu Well i Gymru* [2005], yn cynnig dulliau newydd o gyflwyno deddfwriaeth o'r fath ac mae hwn yn debyg o fod yn gam allweddol ymlaen, nid yn unig yn hanes yr iaith ond hefyd yn nhermau aeddfedrwydd democrataidd ein cymdeithas.
6. Mae angen mireinio rhai agweddau ar y ddeddf bresennol ac angen cymryd camau pellach mewn meysydd eraill. Yn benodol, credaf fod angen datblygu mesurau pellach yn

ymwneud â hawliau ieithyddol; datblygu gweinyddu dwyieithog o fewn cyrff cyhoeddus; a normaleiddio'r defnydd o'r Gymraeg. Ac yn greiddiol i'r uchod, credaf taw'r Cynulliad Cenedlaethol ddylai fod yn gyfrifol am bob agwedd ar ddeddfwriaeth yn ymwneud â'r Gymraeg.

Cwestiynau Allweddol.

1. Pa fath o ddeddfwriaeth?
2. Un ddeddf gynhwysfawr a/neu nifer o fesurau strategol wrth i ddatganoli datblygu?
3. Beth fydd perthynas Deddfwriaeth San Steffan a rôl gynyddol y Cynulliad i ddeddfu ar y Gymraeg ac i weithredu ar raddfa fwy yn y maes gweddol unigryw hwn?
4. Sut mae deddfwriaeth a phatrymau newydd o gydweithio yn mynd i achosi newid yn ein hymddygiad ieithyddol fel dinasyddion, cwsmeriaid a gweithwyr? Mae'n amlwg fod cyfle ac arfer yn gysylltiedig â'i gilydd yn hyn o beth.

Ar hyn o bryd mae bwrlwm o weithgaredd yn y maes gan gynnwys papur strategaeth Cymdeithas yr Iaith, 'Deddf Iaith Newydd: Dyma'r Cyfle' a gyhoeddwyd ym mis Mai 2005; Mesur Seneddol arfaethedig a baratowyd gan Hywel Williams, A.S.; Pwyllgor Arbennig y Cynulliad sy'n trafod tystiolaeth ynghylch yddogfen 'Trefn Llywodraethu Well i Gymru'; gwaith arbenigwyr cyfreithiol David Lambert a Marie Navarro o Brifysgol Caerdydd, 'Wales Legislation Online' a nifer o gyfraniadau eraill.

Ac ar lefel ryngwladol ceir ail rownd 'Yr Ymgynghoriad ar Siarter Ewrop ar gyfer Ieithoedd Rhanbarthol neu Leiafrifol'. Mae'r Llywodraeth eisoes wedi cyflwyno tystiolaeth i Gyngor Ewrop ar ei gweithrediad o'r Siarter, ac mae yna gyfle pwysig yn awr i grwpiau a chyrrff amrywiol gyflwyno tystiolaeth i Gyngor Ewrop a'i Bwyllgor yr Arbenigwyr. Mae hon yn drafodaeth bwysig ar lefel Ewropeaidd ynglyn â pholisi iaith yma yng Nghymru.

Hawliau Ieithyddol

Mae'r Ddeddf Hawliau Dynol wedi datblygu ein dealltwriaeth o'r cysyniad o hawliau sylfaenol unigolion. Mae'r Gymraeg eisoes yn rhan o'r agenda cydraddoldeb yma yng Nghymru ond dylem fod yr un mor uchelgeisiol yn achos y Gymraeg ag yn achos y cydraddoldebau eraill. Ar

ôl degawd o weithredu Cynlluniau Iaith, mae'r tir wedi'i fraenaru i gymryd y camau nesaf o ran sefydlu hawliau ieithyddol penodol i unigolion a gwneud y Gymraeg yn rhan o'r agenda deddfwriaethol ar sail gwrth-wahaniaethu. Mae cam o'r fath yn angenrheidiol er mwyn dangos ein bod o ddifrif ynglyn â diogelu'r Gymraeg.

Mae Deddf yr Iaith (1993) yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth iddynt ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd.¹ Gwneir hyn ar sail cynnwys cynlluniau iaith a gytunir gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg. Anghyson yw gweithrediad cynlluniau iaith, ac nid yw'n glir i'r cyhoedd beth allant ddisgwyl ei dderbyn o ran gwasanaethau Cymraeg.

Credaf ei bod yn bwysig inni gyfateb y ddyletswydd o ddarparu gwasanaeth â'r hawl i'w dderbyn. Dyma'r egwyddor sy'n sylfaen i gynllunio ieithyddol mewn nifer o wledydd – ond sydd bron yn llwyr absennol yma yng Nghymru. Yr eithriad i'r sefyllfa yma yw'r hawl i gael gwrandawriad drwy'r Gymraeg mewn llys barn. Mae'r cyrff hynny sy'n gyfrifol am ddarparu'r gwasanaeth penodol hwn wedi cynllunio gweithredu mewn dull amserol i gwrdd â gofynion y Ddeddf. Mae'r deddfwriaeth yn ei gwneud yn glir bod ganddynt y ddyletswydd i ddarparu'r gwasanaeth - a bod gan unigolion yr hawl i'w dderbyn.

Mae'n bryd inni adeiladu ar y sylfeini hyn, a sefydlu hawliau deddfwriaethol eraill i siaradwyr Cymraeg, yn seiliedig ar agweddau penodol i ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd. Byddai'n amserol er enghraifft sefydlu'n statudol bod gan unigolion yr hawl i dderbyn addysg gyfrwng Cymraeg, yr hawl i ddefnyddio'r Gymraeg mewn nifer o achosion wrth ymwneud â'r Gyfundrefn Iechyd, neu yn y gweithle, yr hawl i ohebu yn Gymraeg â chyrrff sy'n dod o dan gwmpas y Ddeddf, ac i dderbyn gohebiaeth neu wybodaeth ganddynt drwy gyfrwng y Gymraeg.

Cymeradwyaf hefyd y cysyniad o integreiddio'r Gymraeg a'i hachosion fel rhan anhepgor o'r agenda deddfwriaethol ar sail gwrth-wahaniaethu. Mae strategaeth Cymdeithas yr Iaith (2005) yn pwysleisio'r egwyddor sylfaenol hon, sydd yn egwyddor gadarn, gydnabyddedig a theg i'r mwyafrif- ac felly yn fwy tebyg o gael ei derbyn a'i gweithredu. Fyddai'r Gymraeg ddim yn cael ei hystyried yn 'cause célèbre' neu yn 'fetish'. Mae hon yn ffordd resymegol o dacluso tirwedd

deddfwriaethol sydd yn trin anghyfartaledd hanesyddol a diffyg gweithredu yn y gorffennol. Dyma, rwy'n cymryd, yw rhan o'r cysyniad o normaleiddio'r Gymraeg.

Y dasg yw cryfhau'r union hawliau unigolyddol hyn drwy geisio darbwylllo llunwyr polisi nad yw cydnabod hawliau 'pobl' yn fater o dra-arglwyddiaethu hawliau'r unigolyn dros hawliau torfol, neu fel arall, ond eu bod yn hytrach yn llwyr ddibynnol ar y sail eu bod yn 'ddynol' ddibynnol, y naill ar y llall (Carlin 2005).ⁱⁱⁱⁱ

Yn ddi-os mae agenda enfawr deddfu/polisiau cydraddoldeb yn rhan ddi-droi' n-ôl o offerynnau rhyddfrefnio sydd wedi cyflymu wrth i'r 20fed ganrif brysuero tua'i therfyn. Mae cynnwys y Gymraeg yn y rhyddfrefniad cyffredinol hwn yn gwneud synnwyr, - ond mae hefyd, yn gyfle ymarferol i gyplysu camau pwrpasol dros y Gymraeg.

Mae Carlin (2005) yn cydsynio fod gosod y Gymraeg o fewn terfynau cydraddoldeb yn beth doeth ac yn strategol werthfawr, gan ei fod yn galluogi'r gwaith o hybu'r Gymraeg ar lefel arferion da, yn hytrach na deddfu yn y maes hwn. Ac, os oes deddf iaith newydd, ac egwyddor 'swyddogoldeb' wedi ei sicrhau, mae'n bosibl y gallai'r ddwy set o wrthbwysau - arferion da yn deillio o agenda'r cydraddoldebau ar y naill law a deddf iaith newydd ar y llall - weithio'n gytûn. Ond, mae Carlin yn rhybuddio y byddai'n rhaid i deddf iaith newydd fod yn ddigon cryf i wrthsefyll 'cleddyf daufiniog' agenda'r cydraddoldebau. Hynny yw, gweithrediad ymarferol cydraddoldeb sydd ar brydiau yn cyfiawnhau hegemoni'r Saesneg yn unig. Oni cheir gwrthbwys ar ffurf 'swyddogoldeb' neu 'priod iaith' mewn deddf iaith newydd, gallai cydraddoldeb sydd ar yr olwg gyntaf yn ymddangos yn arf ychwanegol i'w ddefnyddio o blaid y defnydd o'r Gymraeg weithio yn erbyn y Gymraeg.

Gwendidau'r System Bresennol

Hawliau sefydliadol sydd gennym ac nid hawliau fel unigolion.

Mae'r gyfundrefn yn arbennig o dda wrth feithrin y gallu i baratoi Cynlluniau Iaith ond nid yw'r gyfundrefn bresennol mor effeithiol o ran arolygu a sicrhau gweithrediad cynlluniau. Un maes lle y gellid cryfhau'r deddfwriaeth yw gosod dyletswydd ar gyrff i

ddarparu gwybodaeth yn ôl y gofyn i'r Bwrdd fel rhan o unrhyw ymchwiliad statudol o dan adran 17 y Ddeddf i ddiffyg gweithrediad cynllun iaith. Mae cyrff wedi manteisio ar hyn ac wedi gwrthod cydweithio a darparu gwybodaeth sylfaenol i'r Bwrdd. Felly dylid cryfhau'r pwerau statudol i'r perwyl hwn.

Mae gafaél Deddf 1993 ar Gyrrff y Goron, megis adrannau Llywodraethol y Deyrnas Gyfunol (gan gynnwys Llywodraeth y Cynulliad) a nifer o'u hasiantaethau, yn enghraifft benodol arall o wendid y ddeddfwriaeth bresennol. Nid yw pwerau'r Bwrdd o ran gofyn i gyrrff baratoi, ac yna gymeradwyo Cynlluniau Iaith, yn berthnasol i Gyrrff y Goron. Gwelwn ddiffygion tebyg o ran gallu'r Bwrdd i adolygu cynnwys cynlluniau, ac yn achos y Llywodraeth, y pŵer i orfodi gweithredu Cynlluniau. Yn hytrach, rhaid dibynnu ar ewyllys da Cyrff y Goron. Mae'r ewyllys da yma wedi amlygu ei hun yn y ffaith fod Cyrff y Goron, ar gyfartaledd, yn cymryd dwywaith cyhyd â chyrrff eraill i baratoi cynlluniau iaith. Ar achlysuron eraill, mae Cyrff y Goron wedi gwrthod gweithredu cynnwys eu Cynlluniau Iaith – a rhaid oedd cael ymyrraeth wleidyddol ar y lefel uchaf i unioni'r sefyllfa.

Nid yw hyn yn dderbyniol nac yn rhesymol. Mae angen cysondeb ac eglurdeb, a dylid gosod yr un disgwyliadau a safonau ar Gyrrff y Goron ag ar gyrrff cyhoeddus eraill. Darparodd Llywodraeth y Cynulliad dystiolaeth i Gomisiwn Richard yn nodi ei bod hi'n bosibl dod â Chyrrff y Goron yn llwyr o dan gwmpas y Ddeddf 1993. Mae'n bwysig fod y Llywodraeth yn ceisio unioni'r sefyllfa annerbyniol hon cyn ystyried trosglwyddo unrhyw bwerau i reoleiddiwr newydd.

O dan Adran 10 Deddf 1993, mae gofyn i'r Cynulliad gael sêl bendith Senedd San Steffan i unrhyw ddiwygiadau i ganllawiau statudol y Bwrdd ar baratoi Cynlluniau Iaith. Yn sgil datganoli, ac o gofio taw'r Cynulliad Cenedlaethol sydd yn arwain yn y maes polisi hwn, credaf y byddai'n briodol ac amserol i'r Cynulliad gael y pŵer i gymeradwyo unrhyw newid i ganllawiau statudol ar baratoi Cynlluniau Iaith.

Mae Deddf 1993 hefyd yn sefydlu'r egwyddor y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal, cyn belled ag y bo'n briodol o dan yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol.

Mae yna densiwn amlwg yn bodoli rhwng y ddau gymal uchod ac, ar lefel ymarferol, cynllun iaith corff yw'r modd i ddatrys y tensiwn hwn. Serch hynny, mae'n deg dweud bod cyrff yn aml yn defnyddio'r cymal yn ymwneud â phriodoldeb a rhesymoldeb yn fympwyol, i osgoi cyfrifoldeb a hefyd i weithredu mewn dull sy'n trin y ddwy iaith yn gyfartal.

Mae'n amserol hepgor y cymal yn ymwneud â phriodoldeb a rhesymoldeb. Byddai cymryd y cam hwn, ynghyd â phennu'r Gymraeg yn iaith swyddogol yng Nghymru ac yn **unfaint** â'r Saesneg, yn hwb sylweddol i atgyfnerthu statws y Gymraeg a dangos ymrwymiad y Llywodraeth i'w hybu a'i diogelu.

Angen nid galw yn unig yn sail i'r Gymraeg yn y gweithle

Un o wendidau mwyaf y ddeddfwriaeth bresennol yw nad yw'n cwmpasu'r defnydd mewnol o'r Gymraeg. Mae absenoldeb mesurau o'r fath yn arafu'r twf yn y defnydd o'r Gymraeg mewn cyrff cyhoeddus ac mae'n aml yn llesteirio datblygu'r ddarpariaeth o wasanaethau cyfrwng Cymraeg. Gallai gweithredu ymarferol mesurau o'r fath fod yn rhan o Gynlluniau Iaith cyrff, gyda'r nod o sicrhau cynnydd yng ngallu ieithyddol gweithluoedd dros gyfnod o amser. Mae mesurau i gefnogi'r Gymraeg yn y gweithle yn greiddiol i ddatblygiad gwasanaethau cyhoeddus o'r radd uchaf yng Nghymru.

Cefnoga f gysyniad y Gymdeithas o ganiatáu hawliau i ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg ar sail natur y nwyddau, cyfleusterau a gwasanaethau a gynigir yn y farchnad ac nid ar sail statws y darparwr; cysyniad sydd yn debyg i'r cyfiawnhad am angen ac nid galw fel sa il darpariaeth, h.y. nid ildio yn llwyr i ofynion y farchnad, gan fod dau beth yn ein rhwystro yn y farchnad lled rydd, sef 1) hegemoni'r Saesneg - a ninnau mor fychan, a 2) treigl amser- mae'n cymryd o leiaf genhedlaeth cyn bod ymddygiad yn newid; pan fo dewis rhwng y Gymraeg a'r Saesneg wrth dderbyn gwasanaeth rhydd, ac am resymau digon dealladwy, creda i, mae'r mwyafrif sydd yn siarad Cymraeg yn dal i ddefnyddio'r Saesneg am gyfnod hir iawn. Ofer i ni feio ein cymdogion am wneud hyn; mae'n cymryd amser hir i newid arferion, a dyna paham mae angen grym deddf wlad i sicrhau fod yna ddewis ar gael am gyfnod hir iawn, yn barhaol felly, i ganiatáu i ymddygiad ymgyfarwyddo ac ymgartrefu yng nghyd-destun dulliau newydd o gyfathrebu a chydweithio.

Mae'r pwnc hwn yn holl bwysig am ddau reswm. Mae siarad llac am ymestyn y Ddeddf Iaith o'r Sector Cyhoeddus i'r Sector Preifat yn ddealladwy, ond yn amlach na pheidio yn awgrymu bygythiad ac nid cyfle ychwanegol i'r cyhoedd, h.y. disgwrs negyddol o orfodaeth sydd ynghlwm wrth hyn- ac mae canolbwyntio ar orfodi a chydymffurfio yn cynnig 'deunydd parod' i wrthwynebwyr y Gymraeg a fydd yn pwysleisio'r gred fod cyfundrefn ddwyieithog yn creu rhwystr i ddenu buddsoddiad ychwanegol yn ein heconomi, yn gost ychwanegol annerb yniol i fusnesau, (nad oes neb gwir wedi ei mesur am nad ydym yn gwybod eto beth fyddai natur y newidiadau, os o gwbl), defnyddio'r iaith yn esgus i esbonio ein tloidi cymharol fel cenedl, ac yn y blaen. Ac felly mae angen casglu tystiolaeth i wrthsefyll y fath honiadau. Mae angen trafodaeth am rymuso, am bweru'r dinasyddion sydd am ddewis y Gymraeg.

Ond y rheswm pennaf yw cymhlethdod natur economaidd ein sefyllfa- mae cydymdreiddiad y gwahanol sectorau erbyn hyn yn ei gwneud hi yn anodd iawn i ddiffinio ffin a therfyn gwasanaeth arbennig, ar wahân efallai i bethau lled syml fel cyfathrach fasnachol wyneb yn wyneb mewn siop neu dafarn. Ac fe â hyn yn fwy ac yn fwy cymhleth wrth i'r farchnad gymysg a thelegyfathrebu cynyddu, ac wrth i ymddygiad unigol, yn hytrach na thorfol neu gymunedol, gynyddu fel norm. Felly mae'n briodol cymryd golwg fwy thematig yn hytrach na sectorol, ac ystyried natur y gwasanaethau a ddarperir i'r cyhoedd. Mae'r Llywodraeth eisoes wedi mabwysiadu'r polisi hwn drwy ddod â chwmnïau dwr o dan gwmpas y Ddeddf bresennol. Wedi i'r Llywodraeth gwblhau ei gwaith ym maes y cyfleustodau, byddai'n briodol ystyried a thrafod a ddylid ymestyn y Ddeddf i feysydd eraill, megis banciau a chwmnïau yswiriant. Credaf y dylai'r Cynulliad Cenedlaethol gael y pŵer i bennu grwpiau o gyrff penodol i ddod o dan gwmpas deddfwriaeth ieithyddol, fel y gwnaed yn achos y darparwyr dwr. Mater i'r Cynulliad Cenedlaethol ddylai hwn fod - ac yno felly y dylai'r pŵer i ddeddfu gorwedd.

Rheoleiddiwr neu Gomisiynydd Iaith ?

Mae'r syniad o sefydlu Comisiynydd Iaith, yn rhywbeth rwyf wedi bod yn ei gefnogi ers 1973 pan wnes i fy ngwaith ymchwil cyntaf yng Nghanaada ar gynllunio ieithyddol ac ar frwydr yr iaith yn Quebec (Williams, 1994,1995; Cartwright a Williams, 1982). Ond ai Comisiynydd y Gymraeg neu Gomisiynydd Iaith sydd angen arnom yng Nghymru? (Williams, 1989). Nid yr un

swyddogaeth sydd yn perthyn i'r naill a'r llall. Ac os am Gomisiynydd y Gymraeg a fydd y person hefyd yn lladmerydd sydd yn hyrwyddo ac yn herio, neu a fydd yn bennaf yn archwilio ac yn adrodd am ffaeiddau'r system?

Ar hyn o bryd mae'r Llywodraeth yn ffafrio'r term 'Dyfarnydd' am y rheoleiddiwr a fydd yn ymyrryd pan fod anghydfod sylweddol yn codi. Mae yna berygl wrth gwrs y byddai'r Dyfarnydd dim ond yn canolbwyntio ar y pethau hanfodol o dan y ddeddfwriaeth bresennol, sef gweithrediad y Cynlluniau Iaith ac y byddai rhannau eraill o'r gwaith o ysgogi a hyrwyddo'r Gymraeg yn cael eu colli oddi fewn i swyddfa Ombwdsman Gweinyddol y Cynulliad. Ond gan fod Llywodraeth y Cynulliad wedi sefydlu comisiynwyr annibynnol dros blant a'r henoed, dylid sicrhau'r un annibyniaeth, yr un gorolwg strategol a'r un statws i'r rheoleiddiwr arfaethedig ar gyfer y Gymraeg.

Felly mae'n hollbwysig bod y rheoleiddiwr arfaethedig yn llais annibynnol dros weithredu'r Ddeddf. Dylai'r penodiad fod am gyfnod penodol, ac mi ddylai fod yn benodiad gan y Cynulliad Cenedlaethol yn hytrach na Llywodraeth y Cynulliad. Byddai hyn yn dilyn y patrwm a grybwyllir ym Mhapur Gwyn y Llywodraeth, *Trefn Lywodraethu Well i Gymru*, ar gyfer yr Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Archwiliwr Cyffredinol. Dylid sicrhau bod gan y rheoleiddiwr arfaethedig y pwerau a'r adnoddau priodol i ymgymryd â'i ddyletswyddau mewn dull amserol ac effeithiol.

Credaf ei bod hi'n hollbwysig bod y rheoleiddiwr hefyd yn cael y swyddogaeth ddiffiniedig o oruchwylio'r Ddeddfwriaeth Ieithyddol a'i gweithredu, yn union fel y cyfrifoldebau eraill a ddarperir, megis hil ac anabledd. Mewn amser wrth gwrs gellir dychmygu rhwydwaith o Gomisiynwyr Iaith o Ganada, Iwerddon, Cymru, Gogledd Iwerddon a rhannau eraill o'r byd yn cydweithio ac yn rhannu profiad â Chomisiynwyr mewn meysydd eraill, megis Gweinyddiaeth, Plant, yr Henoed, Lles ac Iechyd ac yn y blaen.

Pa fath o hawliau fyddai'r ddeddfwriaeth newydd yn eu cynnig?

Mater o drafod yw hwn rhwng y cyhoedd, grwpiau gwleidyddol a'r arbenigwyr, er i mi wybod o brofiad mai gweision sifil fydd yn llywio'r camau awdurdodol fel ag a wnaethant gyda Deddf

Iaith 1993 ac eraill. Rwyf eisoes wedi nodi rhai o'r prif ystyriaethau, - sef sefydlu'n statudol bod gan unigolion yr hawl i dderbyn addysg gyfrwng Cymraeg,^{iv} yr hawl i ddefnyddio'r Gymraeg mewn nifer o achosion wrth ymwneud â'r Gyfundrefn Iechyd, neu yn y gweithle, yr hawl i ohebu yn Gymraeg â chyrrff sy'n dod o dan gwmpas y Ddeddf, ac i dderbyn gohebiaeth neu wybodaeth drwy gyfrwng y Gymraeg. Ond mae ymgyrchwyr yn poeni hefyd am yr economi, ein cymunedau bregus, dylanwad globaleiddio, y cyfryngau, gwerthiant tai a thir ac yn y blaen. Yn hyn o beth mae papur strategaeth Cymdeithas yr Iaith (2005) yn addawol iawn ac yn rhoi pwyslais ar hawliau fesul unigolion ac ar hawliau cymunedau.

Ond oherwydd 'rheol y canlyniadau annisgwyl' mae eisiau llawer mwy o waith arnom ni ar nifer o ganfyddiadau eraill sydd ym mhapur y Gymdeithas - yn bennaf, credaf fod yna fyd o wahaniaeth rhwng galw am hawliau fesul unigolion ac am hawliau cymunedau. Wrth gwrs mae yna lenyddiaeth eang ar wahanol fathau o hawliau ym myd y Gyfraith, Athroniaeth Wleidyddol a'r Gwyddorau Cymdeithasol, ond mae angen bod yn fwy manwl o ran diffinio beth yn union fyddai'r hawliau cymunedol, a phwy yw'r gymuned ddiddordeb. Pwy fyddai'n derbyn cam, a phwy fyddai'n elwa o'r hawliau hyn?

Ac rwy'n awgrymu ei bod yn anodd iawn gweithredu'r cymalau:-

- a) "yr hawl i'r Gymraeg orosi fel iaith gymunedol" a'r
- b) 'hawl i gael ei hadfywio fel rhan integral a sylfaenol o fywyd pob Cymuned yng Nghymru.' (Cymdeithas yr Iaith, 2005, tud.4)

Nid anghytuno â'r dyhead ydwyf i, i'r gwrthwyneb - ond gofyn beth yn union fyddai statws gweithredol cydnabod hawliau o'r fath, sydd yn dra gwahanol eu natur i hawl yr unigolyn i dderbyn gwasanaeth Cymraeg fel cwsmer ac fel gweithiwr, neu addysg gyfrwng Cymraeg fel disgybl. Ac wrth gwrs nid yw'r ffaith ein bod yn cydnabod eu bod yn hawliau cymhleth yn rheswm digonol dros eu hanwybyddu. Ond mae'n rhaid i'r gyfraith gyfleu pŵer, i weithredu ac i newid arfer. Nid rôl y gyfraith yw gwneud gosodiadau gwleidyddol, h.y. nid rôl amlwg, ffurfiol y gyfraith yw gwneud hyn.

Byddai diffinio ein hawliau unigol, fel dinasyddion, yn mynd law wrth law â sefydlu Comisiynydd Iaith: mae'r ddau yn dibynnu ar ei gilydd wrth reswm. Ar hyn o bryd rwy'n gwneud astudiaeth o rôl Comisiynydd Iaith yng Nghanada, Iwerddon a nifer o enghreifftiau eraill lle mae yna Ombwdsman ar gyfer hawliau arbennig.^v

Siarter yr Iaith Gymraeg

Yn ogystal â Deddf Iaith newydd, mae angen Siarter yr Iaith Gymraeg arnom fyddai'n datgan ein hawliau ym maes addysg, yr economi, gwasanaethau cyhoeddus, y cyfryngau ac yn y blaen. Dyma'r lle am osodiadau gwleidyddol a chymdeithasol ynglyn â natur a rôl y Gymraeg.

Pa gysail rhyngwladol sydd i'r fath ddatganiad, er enghraifft, ym maes iaith gwaith? Cymerwch esiampl Quebec.^{vi} Rwyf am ddyfynnu pwt o aralleiriad cyfiawnhad llywodraeth Quebec dros ddeddfu ynghylch beth yn union yw hawliau gweithwyr a chyfrifoldebau cyflogwyr a chwmnïau yn y maes yma:-

“Mae gan bawb sydd yn gyflogedig yr hawl i weithio trwy gyfrwng y Ffrangeg... Os na all Ffrangeg ddangos ei bod yn arf anhepgorol yng ngweithle Quebec, bydd yn colli tir i'r Saesneg, yn enwedig felly ymhlith trigolion sydd yn newydd- ddyfodiaid i Quebec.”

Yn ail, os am hawl, hawl i bawb yng Nghymru ble bynnag y bônt yn trigo, ni ddylid gwahaniaethu yn ddeddfwriaethol ar sail ddaearyddol, am ddau reswm. a) mae'n gwanhau'r cysyniad o gydraddoldeb oddi fewn i'r genedl; b) ymhob achos perthnasol y gallaf feddwl amdanynt, sef Iwerddon, Gwlad Belg, Y Ffindir, De Affrica, mae'r pwysedd i newid yffiniau (h.y. eu crebachu ac nid eu hymestyn) dyweder bob deng mlynedd, yn tynnu oddi ar lwyddiant unrhyw weithgaredd i gryfhau'r gymuned. Felly er fy mod o blaid rhaglenni sydd wedi eu targedi at y Fro Gymraeg, nid wyf am weld diffiniad statudol o'r Fro Gymraeg- boed hynny am resymau hawliau ieithyddol neu wasanaethau economaidd.

Yn drydydd, mae'r Llywodraeth a Chymdeithas yr Iaith yn galw am fforwm democrataidd i drafod yr iaith ac yn awgrymu sefydlu 'Cyngor ar gyfer y Gymraeg' sy'n ddemocrataidd a chynhwysol. Ar y lleiaf, cydnabyddaf fod i'r Cyngor neu'r Fforwm rôl allweddol i gynnig tystiolaeth, caniatáu llais i'r rheini sydd yn amhleidiol yn arbennig. Ond mwy na hynny? Beth fyddai union swyddogaeth a chyfrifoldebau'r Cyngor? Ai Bwrdd yr Iaith estynedig newydd heb

y gweision sifil? Beth sydd wir ei hangen ydyw pwyllgor cryf o arbenigwyr i gymryd rhai o'r cynigion doethaf, gan gynnwys rhai a all ddeillio o'r Cyngor, a' u troi nhw yn gynigion ymarferol y gall y gwleidyddion eu deall a'u gweithredu. Ac nid bod yn gwbl ddireidus yr ydwyf wrth awgrymu nad yw yn dilyn os yw gwleidydd yn siarad Cymraeg, ei bod o anghenraid yn gwybod pa fath o atebion ystyrion sydd yn bodoli i sicrhau ymateb effeithiol i nifer o'n problemau wrth greu cymdeithas ddwyieithog.

Y Papur Gwyn ar Ddatganoli i Gymru

Ac yn bwysicach na hyn oll yw'r newidiadau gwleidyddol arfaethedig wrth i ddatganoli mynd yn ei flaen. Tua chanol mis Mehefin 2005 fe gyhoeddwyd y Papur Gwyn ar Ddatganoli i Gymru. Mae'r Papur Gwyn, *Trefn Lywodraethu Well i Gymru*, yn cyflwyno cynigion ar ddiwygio Deddf Llywodraeth Cymru ac yn ymateb y Llywodraeth i argymhellion Comisiwn Richard. Nododd y Papur sut y gellir cynyddu pwerau'r Cynulliad, gan roi iddo fwy o ryddid oddi wrth ddeddfwriaeth San Steffan, ailffurfio strwythur y Cynulliad, gwahanu'r ochr ddeddfwriaethol oddi wrth Lywodraeth y Cynulliad, a newid trefniadau etholiadol y Cynulliad. Mae'r cynigion yn y Papur Gwyn yn cynnig y cyfle, maes o law, i drosglwyddo rhagor o gyfrifoldebau i'r Cynulliad i ddeddfu mewn meysydd penodol.

Un maes amlwg, unigryw lle y gellid manteisio ar y pwerau newydd yw ym myd polisi iaith ac addysg Cymru. Wrth gwrs mae popeth yn dibynnu ar sut yn union mae'r llywodraeth yn Llundain ac yng Nghaerdydd yn dehongli'r berthynas newydd sydd rhyngddynt. Ond yn ddamcaniaethol pe bai'r drafodaeth sydd yn dilyn y Papur Gwyn yn awgrymu dwyieithrwydd fel maes polisi arbennig o dan ofal Llywodraeth Cymru, gall hynny roi hwb sylweddol, nid yn unig i Ddeddf Iaith newydd ond i ddeddfwriaeth hollol unigryw ym maes dwyieithrwydd. Yr allwedd i hyn yw'r 'Gorchmynion yn y Cyngor'. Mesurau ac nid deddfau fel y cyfryw yw'r 'Gorchmynion yn y Cyngor', 'Orders in Councils', ac mae'n gwbl bosib nodi pa bethau penodol y byddai'r Cynulliad yn derbyn cyfrifoldeb statudol trostynt wrth ddyfarnu, dywedwch ar faterion ieithyddol, neu addysg. O hynny ymlaen ni fyddai'n rhaid i bob rhan o bolisi ddod ger bron San Steffan, dim ond yr elfennau a neilltuwyd naill ai i'r Senedd neu i'r Ysgrifennydd Gwladol.^{vii}

Credaf y dylai Llywodraeth y Cynulliad wneud trosglwyddo pwerau yn ymwneud â'r Gymraeg yn flaenoriaeth yn hyn o beth. Mae'r broses o adfywio'r Gymraeg a chreu Cymru ddwyieithog yn digwydd dros gyfnod hir o amser, a bydd gofyn diwygio'r ddeddfwriaeth berthnasol yn rheolaidd. O gofio bod gan y Cynulliad swyddogaethau gweithredol yn ymwneud â'r Gymraeg, gwna synnwyr i'r Cynulliad gael y pŵer i newid y ddeddfwriaeth yn hytrach na gorfod cystadlu am amser deddfu yn San Steffan. Dylai unrhyw drosglwyddiad o bwerau deddfwriaethol fod yn ddigon eang i ddelio ag amryw o sefyllfaoedd a meysydd polisi yn ymwneud â'r Gymraeg.

Trefn weinyddol 'Gorchymynion yn y Cyngor'

1. Llywodraeth y Cynulliad a'r Cynulliad yn cynnig 'Gorchymyn' i'r Ysgrifennydd Gwladol.
2. Yr Ysgrifennydd Gwladol yn cyflwyno'r Gorchymyn ger bron y Senedd.
3. Pwyllgorau Ty'r Cyffredin a Thy'r Arglwyddi yn archwilio'r dystiolaeth a'r cyfiawnhad.
4. Dadl hyd at 90 munud yn y ddwy Siambr.
5. Sêl bendith y Frenhines a'r Cyfrin Gyngor.
6. Y Gorchymynion yn ddarostyngedig i benderfyniad cadarnhaol (*affirmative resolution*) ond nid i ddeddfwriaeth y Cynulliad
7. Mae'r Gorchymynion yn cynnwys amodau galluogi er mwyn i'r Cynulliad baratoi deddfwriaeth. ^{viii}

Yn ymarferol golyga hyn y gall y Cynulliad fod yn Senedd anffurfiol, yn datblygu ei rym mewn meysydd priodol heb orfod mynd yn ôl ac ymlaen i San Steffan. Yn achos y Gymraeg mae'n bosib i'r Cynulliad hawlio fod ganddo'r cyfrifoldeb a'r arbenigedd i weithredu dros y Gymraeg ac felly o dan fy nehongliad i o oblygiadau'r Papur Gwyn, gallai'r Cynulliad ofyn bron am fonopoli ynghylch datblygu polisi ar ddwyieithrwydd. Ofer yw cael y polisi heb y pŵer.

Dyma fyddai'r cymal perthnasol, gofyn am Orchymyn yn y Cyngor "i ddiogelu ac i hyrwyddo'r Gymraeg". Byddai hwn yn cydsynio gyda chymal 32 Deddf Llywodraethu Cymru, 1998. Ond er mwyn i'r Cynulliad argyhoeddi'r Ysgrifennydd Gwladol mae'n ofynnol i'r Cynulliad ddibynnu ar gymdeithas sifil Cymru, cyn, yn ystod ac ar ôl y fath ddeddfwriaeth. Ac yn hynny o beth

byddai gennym ddemocrasi fwy cynhwysfawr ac adeiladol na nifer o wledydd eraill Ewrop, gan y byddai'r Cynulliad yn fwy dibynnol ar y cyhoedd o nawr ymlaen. Ni fyddai'n gallu troi at Lundain am fawr o gymorth, na beio San Steffan ychwaith; ein cyfrifoldeb ni, yma yng Nghymru, fyddai'r ddeddfwriaeth a'r polisiau sydd yn debyg o ddeillio o'r ddeddfwriaeth newydd.

Goblygiad arall o hyn fyddai cynnig mwy o waith a chyfrifoldeb i Aelodau'r Cynulliad. Mae'n wir na fyddai aelodau'r gwrthbleidiau yn llywio cymaint ar bolisi o ddydd i ddydd, ond yn sicr byddent yn ymwneud llawer mwy â pharatoi deddfwriaeth o nawr ymlaen, a thrwy hynny yn gallu llunio siâp a chymeriad natur unigryw ein Cynulliad a'r gymdeithas.

Elfen arall amlwg wrth gwrs yw y byddai pob darn o ddeddfwriaeth yn gorfod bod yn ddwyieithog; mae hyn hefyd yn ategu at natur unigryw ein cyfansoddiad anffurfiol a'n gweithgaredd wrth ddefnyddio'r Gymraeg mewn meysydd newydd am y tro cyntaf.

Yn naturiol, cyfyd hyn oll gwestiynau sylfaenol ynglyn â datganoli. Byddai angen ystyried goblygiadau llwyr ddatganoli pwer i ddeddfu ar y Gymraeg ar gyrff y Deyrnas Gyfunol sy'n darparu gwasanaethau yng Nghymru. Serch hynny, rwyf o'r farn taw'r Cynulliad ddylai fod yn gyfrifol am osod cyfeiriad a phennu cynnwys polisiau sydd yn ymwneud â'r Gymraeg, ac y dylai gael y pwerau priodol i wneud hynny.

Pen draw hyn oll fyddai ail-strwythuro'r ymgyrch dros ddeddfwriaeth, sef cadw'r pwysedd ar Ddeddfwriaeth Iaith newydd a gweithredu trwy'r Gorchmynion yn y Cyngor, a fyddai'n gorfod cael sêl bendith San Steffan, ond hefyd mynnu llawer mwy o fesurau yng Nghaerdydd yn sgil grymuso'r llywodraeth yma. Ac rwy'n cymryd y byddai'r ail yn haws i'w gwneud na'r cyntaf am nifer o resymau gweddol amlwg. Ond yn sicr bydd yr adrefnu arfaethedig yn llwyr weddnewid y dull o ddatblygu a gweithredu polisiau iaith yng Nghymru. Un o'r cwestiynau allweddol a ofynnais uchod oedd 'un ddeddf gynhwysfawr a/neu nifer o fesurau strategol wrth i ddatganoli datblygu'? Yn sicr, mae'n bosib rhagweld sut gallai 'Gorchmynion yn y Cyngor' osod rhaglen dreiglol o is-ddeddfau ar waith, a bwrw bod yr ewyllys gwleidyddol yn bodoli. Ond y mae'r

mwyafrif o sylwebyddion yn dilyn dehongliad John Osmond (2005) sydd yn amau ymarferoldeb gwleidyddol y ffordd yma o weithredu.

Felly i gloi dyma un agenda bosib ar sut i fanteisio ar y cyfleoedd newydd sydd gennym. Nid wyf o anghenraid yn hawlio mai dyma'r unig ffordd ymlaen, ond yn sicr y mae yn cynnig ffordd ddyfeisgar o weithredu:-

- 1) Deddfwriaeth Iaith newydd trwy ddyfais 'Gorchymyn yn y Cyngor';
- 2) Prif-ffrydio'r Gymraeg fel ystyriaeth ac fel iaith gyfansoddiadol wrth baratoi deddfwriaeth eilaidd y Cynulliad ac fel rhan o raglen ddeddfwriaethol gyffredinol San Steffan;^{ix}
- 3) Sefydlu Swydd Comisiynydd y Gymraeg;
- 4) Cryfhau pwerau'r Cynulliad;
- 5) Democrateiddio cyfraniad y gymdeithas sifil trwy gynnig Fforwm Iaith neu Gyngor y Gymraeg wirioneddol werthfawr;
- 6) Integreiddio gwaith y Bwrdd i ganol y Llywodraeth ac nid yn adran ymylol,^x
- 7) Ceisio argyhoeddi'r cyhoedd a'r darparwyr i newid eu hymddygiad fel ymateb i gyfuniad o ddeddfwriaeth, ideoleg wleidyddol ac effaith y system addysg wrth greu mwy o ymwybyddiaeth ieithyddol.

Mae'r gyfraith yn creu cyfle, ond profiad bob dydd fel dinesydd sy'n creu'r awydd i'w ddefnyddio.

Cydnabyddiaeth

Fersiwn diwygiedig o ddarlith a draddodwyd yn Eisteddfod Eryri ar y 4ydd o Awst 2005. Pleser yw cael diolch yn ddiwyll i bawb a gytunodd i gael eu cyfweld ar gyfer yr ymchwil hwn. Diolch arbennig iawn i Prys Davies, Bwrdd yr Iaith Gymraeg, David Lambert, Marie Navarro, Wyn James a Huw Thomas, Prifysgol Caerdydd, Patrick Carlin, Prifysgol Cymru, Aberystwyth, Catrin Dafydd, Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, Gerard Finn, Swyddfa Comisiynydd Iaith Canada am eu parodrwydd i'm helpu deall agweddau o'r gwaith. Cefais adborth adeiladol ar

fy syniadau wrth i mi gyflwyno seminar ar 'Hawliau Dinesig a Chomisiynydd Iaith', sef seminar agoriadol cyfres Gwleidydd IAITH, Prifysgol Cymru, Aberystwyth. Diolch i Richard Wyn Jones, Adran Gwleidyddiaeth Rhyngwladol am fy ngwahodd i siarad ar y 4ydd o Hydref, 2005.

Cyfeiriadau

Carlin, P. (2005) Cyfathrebiad personol, Hydref 8fed.

Cartwright, D. a Williams, C.H. (1982) 'Bilingual Districts as an Instrument in Canadian Language Policy', *Transactions of the Institutue of British Geographers*, 7, 474-93.

Commissioner of Official Languages (2005) 'Annual Report 2004-5', Ottawa: Office of the Commissioner of Official Languages.

Cymdeithas yr Iaith Gymraeg (2005) *Deddf Iaith Newydd: Dyma'r Cyfle*. Aberystwyth: Cymdeithas yr Iaith Gymraeg.

Gardner, N. Puigdevall i Serralvo, M. a Williams, C.H. (2000) 'Language Revitalization in Comparative Context: Ireland, the Basque Country and Catalonia', yn C.H.Williams, (gol.) *Language Revitalization: Policy and Planning in Wales*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, tud. 311-61.

Gouvernement de Québec (2003) 'About Quebec's Language Policy', Quebec City: Gouvernement de Québec.

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2003) *Iaith Pawb: Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwylieithog*, Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Morgan, K.J. a Upton, S. (2005) 'The New Centralism', *Agenda*, Haf 2005, tud 29-31.

Osmond, J. (2005) 'Virtual Parliament' *Agenda*, Haf 2005, tud 25-28.

Swyddfa Cymru (1993) Deddf yr Iaith Gymraeg 1993. Caerdydd a Llundain: Swyddfa Cymru. Gellir ei weld ar <http://www.swyddfa.cymru.gov.uk/languagecheme>,

Swyddfa Cymru (2005) Papur Gwyn 'Gwell Trefn Lywodraethu Well i Gymru' gan Swyddfa Cymru, rhan o Lywodraeth y Deyrnas Gyfunol, 15 Mehefin 2005. Caerdydd a Llundain: Swyddfa Cymru. Gellir ei weld ar http://www.swyddfa.cymru.gov.uk/2005/trefn_lywodraethu_well_i_gymru

Williams, C.H. (1989) 'New Domains of the Welsh Language: Education, Planning and the Law', *Contemporary Wales*, 3, 41-76.

Williams, C.H. (1995) 'A Requiem for Canada?' yn G.Smith, (gol.), *Federalism: The Multiethnic Challenge*, Llundain: Longman, 31-72.

Williams, C.H. (1996) 'Citizenship and Minority Cultures: Virile Participants or Dependent Supplicants?' yn A. Lapierre, P. Smart a P. Savard (gol), *Langauge, Culture and Values in Canada at the Dawn of the 21st Century*. Ottawa: International Council for Canadian Studies. 155-84.

Williams, C.H. (2004a) '*Iaith Pawb: Iaith Braidd Neb*', Darlith Gyhoeddus y Sefydliad Cymreig ar Faterion Cymdeithasol a Diwylliannol, Prifysgol Cymru, Bangor, 15 Mawrth. Gweler safle we y sefydliad am gopi o'r papur.

Williams, C.H. (2004b) 'Iaith Pawb: The Doctrine of Plenary Inclusion', *Contemporary Wales*, 17, 1-27.

Williams, C.H. (2005) *Deddf Iaith Newydd. Dyma'r Cyfle a'r Ymateb*. Araith i Gyfarfod Cymdeithas yr Iaith. Eisteddfod yr Urdd, Caerdydd Mai 30ain.

ⁱ Mae hanes datblygiad deddfwriaethol y Gymraeg yn dangos sut y dysgwyd o brofiad er mwyn dileu achosion o anghyfartaledd ieithyddol yn y sffêr gyhoeddus a chryfhau statws y Gymraeg dros gyfnod o amser. Caniataodd Deddf Llysoedd Cymru 1942 y defnydd o'r Gymraeg mewn llysoedd barn gan unigolion a fyddai o dan anfantais pe defnyddient y Saesneg. Fe gynyddodd Deddf Iaith 1967 statws y Gymraeg yn y llysoedd, a rhoi'r pŵer i Weinidogion bennu fersiynau dwyieithog o ffurflenni swyddogol. Serch hynny, nid oedd y Gymraeg yn cael ei thrin yn gyfartal mewn bywyd cyhoeddus – a phrif amcan Deddf Iaith 1993 oedd unioni'r anghyfartaledd hwn. (gweler Williams, 1989).

ⁱⁱ Serch hynny, mae Patrick Carlin wedi cynnig y sylw ei fod yn “cytuno ei bod yn well pe bai praeis y dydd yn gofyn am gychwyn unrhyw ddeddfu ar y Gymraeg drwy dorri cwys deddfu ar sail yr unigolyn, ond bod llunwyr rywsut yn dod yn fwyfwy ymwybodol o wedd fwy cyfannol i wead 'pobl' a bod continwrm rhwng yr unigolyn a'r 'gymuned' . O gydnabod hyn, dw i'n cyfadde na fyddai'n fawr o dro nes i fater 'tiriogaeth' frigo i'r wyneb ond dylid, dw i'n cytuno, ddadlau'n gryf yn erbyn hynny am y rheswm syml nad yw'n opsiwn synhwyrol, waeth beth yw barn y dydd am hyd a lled y 'Fro Gymraeg'. O ran cael y maen i'r wal a darbwylllo llunwyr, dw i ddim yn meddwl y byddai'n sut gymaint o naid ffydd iddyn nhw ymrafael â chyd-ddibyniaeth yr unigolyn a'r torfol. Oni fyddai hyn yn ei gwneud yn haws i 'gyfateb y ddyletswydd o ddarparu gwasanaeth â'r hawl i dderbyn', drwy ddefnyddio dadl y 'torfol sy'n amddiffyn yr unigolyn' yn yr union ieithwedd honno sydd mor hegemonig y dwthyn hwn.” (Carlin 2005, cyfathrebiad personol).

^{iv} Yn hyn o beth fyddai'n werthfawr iawn drafod 'iawnderau' rhieni sydd am i'w plant dderbyn addysg cyfrwng Cymraeg er mwyn iddynt gwybod beth yn union pa fath o ddarpariaeth fyddai pob Awdurdod Addysg yn cynnig iddynt.

^v Am y sefyllfa yng Nghanada gweler <http://www.ocol-clo.gc.ca> ac am Iwerddon gweler [http://www.pobail.ie/en/Irish Language/Official Languages Act 2003/](http://www.pobail.ie/en/Irish%20Language/Official%20Languages%20Act%202003/) Bydd ymdriniaeth o Ganada, Iwerddon a Chymru yn ymddangos yn fy llyfr 'Language and Governance' a gyhoeddir gan Wasg y Brifysgol yn 2006.

^{vi} Rwy'n deall, wrth gwrs, fod Quebec yn dra wahanol i Gymru, ond yr egwyddor sydd yn bwysig yma, a'r cyfiawnhad dros warchod gan ddefnyddio'r gyfraith i sicrhau hawliau statudol. "Every employee has the right to work in French. Enterprises having 50 or more employees must register with the Office québécois de la langue française and must produce an assessment of their linguistic situation. If French is not used at all hierarchical levels, the enterprise must implement a francization programme to make French the language for its operations and internal communication. In order that French be seen as important and valuable to learn, it must not be confined to private life or to low-level jobs within the hierarchies of Quebec enterprises. In other words knowledge of French must lead to well-paying jobs, including those in senior positions. If French cannot show that it is an indispensable tool in the workplace of Quebec, its ability to show its usefulness will decline rapidly to the benefit of English, particularly so among people who take up permanent residency in Quebec." (*About Quebec's Language Policy*, 2003).

^{vii} Fel ag y mae Patrick Carlin (2005) wedi nodi nid yw hyn yn ymddangos yn bell iawn o'r sefyllfa ym mhob un o ranbarthau ymreolus Sbaen lle mae angen 'Orden' oddi fry yn Cortes Madrid cyn bod trosglwyddo cymhwysedd arbennig i'r rhanbarth dan sylw. Yna, mae gweithrediadau'r rhanbarthau yn gallu cynhyrchu rheoliadau rif y gwllith fel y mynnan nhw, ar gefn yr 'Orden' cychwynnol. Gweler Gardner et al (2000).

^{viii} Carwn ddiolch wrth David Lambert am ei gymorth wrth fy nhywys trwy'r broses.

^{ix} Er enghraifft, deddfwriaeth 'Deddf Galluedd Meddyliol' (2004). Mae'r Ddeddf Galluedd Meddyliol yn darparu fframwaith statudol i rymuso a gwarchod pobl ddiymgeledd na allant wneud penderfyniadau drostynt eu hunain. Mae'n nodi'n glir pwy sydd â'r hawl i wneud penderfyniadau, ym mha sefyllfaoedd, a sut y dylent wneud hynny. Mae'n galluogi pobl i gynllunio ar gyfer cyfnod yn y dyfodol pan na fyddant o bosibl yn gallu gwneud penderfyniadau drostynt eu hunain. Yn ogystal mae'r deddf yn cwmpasu'r ystyriaethau canlynol:- Rhagdybiaeth ynghylch galluedd – mae gan bob oedolyn hawl i wneud ei benderfyniadau ei hun, a rhaid cymryd yn ganiataol ei fod yn gallu gwneud penderfyniadau drosto'i hun oni phroffir yn wahanol;

Hawl unigolion i gael cefnogaeth i wneud eu penderfyniadau eu hunain -rhaid i bobl gael pob cymorth priodol cyn i unrhyw un ddod i'r casgliad na allant wneud penderfyniadau drostynt eu hunain;

Bod rhaid i unigolion gadw'r hawl i wneud penderfyniadau a allai gael eu hystyried yn rhai ecentrig neu annoeth;

Lles pennaf – rhaid i unrhyw beth a wneir ar ran pobl sydd wedi colli'r gallu i wneud penderfyniadau drostynt eu hunain fod er pennaf les iddynt; ac

Ymyriad lleiaf cyfyngol – dylai unrhyw ymyriad ar ran pobl nad ydynt yn gallu gwneud

penderfyniadau drostynt eu hunain gyfyngu cyn lleied ag sy'n bosibl ar eu hawliau a'u

rhyddid sylfaenol.

Beth mae'r Ddeddf yn ei wneud?

Mae'r Ddeddf yn cynnwys mewn statud yr arferion gorau presennol ac egwyddorion cyfraith gwlad sy'n ymwneud â phobl nad ydynt yn gallu gwneud penderfyniadau drostynt eu hunain a'r rheini sy'n gwneud penderfyniadau ar eu rhan. Mae'n disodli'r cynlluniau statudol cyfredol ar gyfer atwrneiaethau parhaus a derbynyddion y Llys Nodded gan roi cynlluniau sydd wedi'u diweddarau a'u diwygio yn eu lle.

Mae'r Ddeddf yn ymdrin â sut mae'r sawl sy'n gofalu am bobl nad ydynt yn gallu gwneud penderfyniadau drostynt eu hunain yn asesu eu galluedd a gweithredoedd.

Asesu diffyg galluedd meddyliol – Mae'r Ddeddf yn nodi un prawf clir er mwyn asesu a yw

person yn abl i wneud penderfyniad penodol ar adeg benodol. Mae'n brawf sy'n seiliedig ar

“benderfyniad penodol”. Ni ellir rhoi'r label ‘analluog’ ar unrhyw un o ganlyniad i gyflwr neu

ddiagnosis meddygol penodol.”

Awgryma fy nghyfaill Dr Wyn Bellin o Brifysgol Caerdydd fod hwn yn cynnwys y gallu i ddefnyddio'r Gymraeg o dan y fath amgylchiadau. Mae'n dilyn felly fod yna doraith o fesurau tebyg sydd yn ceisio grymuso'r unigolyn. Mater o ddehongliad, hyrwyddo ac wedyn ffurfioli'r broses o gynnwys y Gymraeg fel rhan annatod o'r fath ddeddfwriaeth yw hi.

^x Yr wyf yn ymwybodol fod llwyddiant cynnig yr wrth blaid bod y Cynulliad Cenedlaethol yn cyfarwyddo Llywodraeth Cynulliad Cymru i ohirio'r broses o uno Bwrdd yr Iaith Gymraeg â'r Cynulliad hyd nes bydd y Cynulliad yn cymeradwyo cynnig sy'n ymdrin yn foddhaol â gweithrediad swyddogaethau rheoliadol y Bwrdd a phwerau monitro cynlluniau awdurdodau addysg lleol ar gyfer hybu'r iaith, .” wedi creu cryn dipyn o ansicrwydd ynghylch yr achos hon. Gweler Dadl Plaid Leiafrifol NDM2613 Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru), Y Cynulliad Genedlaethol, 11 Hydref 2005.